



Bwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy a Sir Ddinbych
Conwy and Denbighshire Local Service Board

Bwrdd Gwasanaeth Lleol
Conwy a Sir Ddinbych

Strategaeth Wybodaeth

2012- 2025

Cynnwys

	Tud
1. Rhagair	2
2. Pwrpas	3
3. Nod	4
4. Beth yw Gwybodaeth?	4
5. Sut y byddwn yn gwneud hyn?	4
6. Pa Wybodaeth sydd ei hangen ar y BGLI a Phryd?	5
7. Rôl Partneriaid o ran Rheoli Gwybodaeth	6
8. Perchnogaeth, Rheoli a Sicrhau Gwybodaeth	7
9. Mesur Llwyddiant	7
10. Adolygu a Diweddarau	7
Atodiadau	
• Atodiad A – Model Hierarchaeth Aeddfedrwydd Gwybodaeth Fusnes	8
• Atodiad B - Cynllun Gweithredu	9
• Atodiad C - Rhestr lawn o Anghenion Gwybodaeth y BGLI ac Amserlenni	10
• Atodiad D - Canllawiau a Deddfwriaeth	11

DS: Mae unrhyw gyfeiriad at y BGLI yn y strategaeth hon yn cynnwys y sefydliadau a restrir isod.

1. Rhagair

Fel Cadeirydd Bwrdd Gwasanaeth Lleol (BGLI) Conwy a Sir Ddinbych mae'n bleser gennyf eich cyflwyno i'n Strategaeth Wybodaeth.

Mae BGLI Conwy a Sir Ddinbych yn bartneriaeth o wahanol fudiadau sydd wedi ymrwymo i weithio ar y cyd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar y dinesydd. Rydym yn ceisio gwneud hyn trwy ein Cynlluniau Integredig Sengl, 'Un Conwy' a'r 'Cynllun Mawr' yn Sir Ddinbych.

Fodd bynnag, mae datblygu a chyflenwi Cynllun Integredig Sengl effeithiol ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych yn dibynnu ar rannu gwybodaeth a data cadarn ymhlith yr holl bartneriaid.

Bydd y strategaeth hon yn sicrhau ymroddiad parhaus gan holl Bartneriaid y BGLI i fabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol a chyson wrth rannu a rheoli gwybodaeth gan weithio o fewn y [ddeddfwriaeth](#) i ddiogelu pob gwybodaeth bersonol yr un pryd.

Bydd y Strategaeth Wybodaeth hon yn penderfynu yn y pen draw sut y bydd partneriaid yn bwriadu cyflenwi'r BGLI â'r wybodaeth gywir ar yr adeg cywir.

Cafodd y strategaeth hon ei datblygu yn gyfochrog â Strategaeth Ymgysylltu'r BGLI sy'n amlinellu sut yr ydym yn ymgysylltu â'n dinasyddion i oleuo ein gwaith.



Andrew Bowden
Cadeirydd Bwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy a Sir Ddinbych



2. Pwrpas

Ar adeg o doriadau cyllidebol, mae gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn allweddol i sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl Conwy a Sir Ddinbych. Mae 'Un Conwy' a'r 'Cynllun Mawr' yn cynnwys canlyniadau sy'n amlinellu yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni a'n nod yw gallu dweud 'Pa wahaniaeth' y mae'r cynlluniau wedi'u gwneud i'n cymunedau. Gan fod y dull hwn o weithredu yn golygu dibynnu fwyfwy ar wahanol fathau o wybodaeth, mae cwmpas y strategaeth hon yn cynnwys data personol a pherfformiad, ymchwil a rheoli gwybodaeth.

Bydd llwyddiant 'Un Conwy' a'r 'Cynllun MAWR' yn y dyfodol yn dibynnu ar ba mor dda y gallwn adeiladu ein capasiti i reoli, rhannu, diogelu a deall yr wybodaeth. Felly, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth yn ddiogel a sicr, gan leihau'r risgiau a ddaw yn sgil rhannu gwybodaeth, mae'r strategaeth yn nodi:

- Beth yw gwybodaeth
- Sut y byddwn yn gweithredu fel hyn
- Y math o wybodaeth sydd ei hangen a phryd
- Rôl Partneriaid y BGLI
- Perchnogaeth, rheoli a sicrhau gwybodaeth
- Cynlluniau ar gyfer adolygiadau'r dyfodol

3. Nod

Nod y Strategaeth Wybodaeth hon yw datblygu a gwella'r modd y cyflenwir gwasanaethau cydgyssylltiedig, a ysgogir gan alw ac angen cynyddol i ddeall ein cymunedau.

Amcan y strategaeth hon yw:

"Sicrhau bod yr wybodaeth berthnasol ar gael i'r bobl briodol ar yr amser cywir; er mwyn monitro gweithrediad, perfformiad ac effaith 'Un Conwy' a'r 'Cynllun MAWR', ac ar yr un pryd, sicrhau diogelwch gwybodaeth yn barhaus."

4. Beth yw Gwybodaeth?

At bwrpas y strategaeth hon defnyddir y ddiffiniadau a ganlyn ar gyfer data, gwybodaeth a dealltwriaeth.

Term	Diffiniad
Data	Ystyr data yw rhifau, geiriau neu ddelweddau nad ydynt wedi'u trefnu na'u dadansoddi eto i ateb cwestiwn penodol.
Gwybodaeth	Caiff ei chynhyrchu trwy brosesu, trin a threfnu data i ateb cwestiynau, gan ychwanegu at wybodaeth y derbynnydd. Gall fod yn ansoddol neu'n feintiol.
Dealltwriaeth	Yr hyn y mae unigolyn neu unigolion yn ei wybod. Yn cynnwys dehongli'r wybodaeth a dderbynnir, ychwanegu perthnasedd a chyd-destun i egluro'r sylwadau sydd wedi'u cynnwys yn yr wybodaeth.

Ffynhonnell: Gwella gwybodaeth i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau: safonau ar gyfer data o ansawdd gwell.

Mae data, gwybodaeth a dealltwriaeth wedi'u cysylltu a'i gilydd. Rhoddir mwy o werth ar wybodaeth os caiff ei defnyddio/daw'n rhan o ddealltwriaeth y gellir ei defnyddio yn ddiweddarach i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau/newidiadau.

Aeddfedrwydd rheoli gwybodaeth

Ystyr aeddfedrwydd rheoli gwybodaeth yw gweld y darlun mawr a gwneud penderfyniadau da.

Po fwyaf yr aeddfedrwydd rheoli gwybodaeth, po fwyaf defnyddiol a gwerthfawr yw'r wybodaeth. Mae'n bwysig fod y BGLI yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth aeddfed gan ei bod yn fwy hyfyw a chywir.

Mae sawl gwahanol model aeddfedrwydd rheoli gwybodaeth, fodd bynnag gweler Atodiad A ar gyfer y Model Aeddfedrwydd Gwybodaeth Fusnes sydd yn gysylltiedig â'r diffiniadau uchod.

Gweler Atodiad A – Model Aeddfedrwydd Gwybodaeth Fusnes

5. Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Er mwyn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i:


- I. Datblygu systemau priodol ar y cyd i rannu a storio gwybodaeth os ystyrir hwy yn hyfyw i sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu ar draws y partneriaid yn effeithiol ac yn ddiogel;
- II. Mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar risg wrth rannu gwybodaeth gan gydbwyso'r angen i rannu gwybodaeth a diogelwch.
- III. Gwella'r aeddfedrwydd gwybodaeth sydd ei angen ar gyfer '*Un Conwy*' a'r '*Cynllun MAWR*'.
- IV. Sicrhau y bydd gwybodaeth nad yw'n cael ei rhannu ar hyn o bryd ar gael ar lefel leol a gytunwyd er mwyn sicrhau y caiff adnoddau eu targedu'n fwy effeithiol.
- V. Mapio prosesau a gweithdrefnau presennol i adnabod bylchau o ran gwybodaeth, gallu, adnoddau a thechnoleg sydd angen eu llenwi er mwyn cyflenwi'r ddarpariaeth. Gwella gallu partneriaid sy'n rheoli data
- VI. Sicrhau bod gan bartneriaid rolau a chyfrifoldebau clir ac y caiff safonau a dyletswyddau deddfwriaethol eu cynnal ar draws yr holl sefydliadau
- VII. Rheoli gwybodaeth yn briodol yn unol â'r 6 egwyddor a ganlyn, a ddatblygwyd ar sail arfer da ar draws y sector:
 - **COUNT** – er mwyn lleihau dyblygu trwy wella'r rheolaeth a'r defnydd o wybodaeth – casglu unwaith a'i defnyddio sawl gwaith.
 - **Rhannu** – Caiff gwybodaeth a data eu rhannu ymhlith partneriaid oni bai fod cyfyngiadau cyfreithiol yn rhwystro hyn a gyda phrotocolau addas yn eu lle.
 - **Atebolrwydd ar y Cyd** – Mae'r holl bartneriaid yn gyfrifol am y gofynion gwybodaeth a rheoli sy'n ymwneud â'r cynllun integredig ac mae ganddynt rolau a chyfrifoldebau clir.
 - **Ymddiriedaeth** – Y data a'r wybodaeth a ddarperir i bartneriaid i'w defnyddio yn briodol ac o fewn rhwymedigaethau cyfreithiol.
 - **Ymrwymiad** – Mae partneriaid wedi ymrwymo i weithio ar y cyd ar reoli gwybodaeth ac yn ymwybodol o'u rolau a'u chyfrifoldebau.

- **Penderfyniadau ar Sail Tystiolaeth** – penderfyniadau allweddol yn ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd yn aeddfed, hyfyw, cywir ac o ansawdd.

Mae Cynllun Gweithredu y Strategaeth Wybodaeth sydd ynghlwm â'r strategaeth hon yn Atodiad B, yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu cyflawni'r uchod a caiff ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol gan y BGLI.

6. Pa wybodaeth sydd ei hangen ar y BGLI a Phryd?

Defnyddiwyd dull canlyniadau a chylch datblygu polisi i ddatblygu 'Un Conwy' a'r 'Cynllun MAWR.' Gellir dangos y cylch polisi a'r dull canlyniadau hyn trwy:



Mae'r tabl uchod yn ymdrin ag anghenion gwybodaeth y BGLI / partneriaid; mae'r Strategaeth Ymgysylltu yn adnabod y rhanddeiliaid nad ydynt yn bartneriaid a'u hanghenion gwybodaeth a chyfathrebu. Ar sail y dadansoddiad hwn o anghenion gwybodaeth, mae'n amlwg fod angen i'r holl bartneriaid fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran gwybodaeth (gweler Adran 7).

I gael mwy o wybodaeth, mae rhestr gyflawn o anghenion gwybodaeth ac amserlenni'r BGLI ynghlwm â'r strategaeth hon yn Atodiad C.

7. Rolau a Chyfrifoldebau'r Holl Bartneriaid wrth Reoli Gwybodaeth

Mae'r strategaeth hon yn hanfodol i ddatblygiad 'Un Conwy' a'r 'Cynllun MAWR' a thrwy gymeradwyo'r strategaeth hon mae BGLI ar y Cyd Conwy a Sir Ddinbych yn dangos ei ymroddiad i arwain yn y maes allweddol hwn a chydweithio er mwyn ei gyflenwi.

Yn Adran 5, nodwyd bod holl Bartneriaid y GBLI yn chwarae rhan allweddol yn ystod cylch bywyd 'Un Conwy' a'r 'Cynllun MAWR,' a hynny trwy'r dulliau a ganlyn:

- Cymryd cyfrifoldeb am reoli'r data yn effeithiol ac effeithlon.
- Cymryd cyfrifoldeb am gasglu data gan y corff.
- Darparu gwybodaeth gan y corff.
- Cynorthwyo i adnabod bylchau a chyfleoedd datblygu er mwyn gwneud gwell defnydd o'r wybodaeth.
- Datblygu dealltwriaeth dda a'r gallu i ddehongli'r wybodaeth.
- Sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn gywir, dilys, dibynadwy, amserol, perthnasol a chyflawn.
- Gweithio ar y cyd.
- Ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau ac yn gweithredu ar eu sail.
- Hyfforddi staff ym maes Diogelu Data fel y gallent weithio o fewn gofynion y ddeddfwriaeth.

8. Perchnogaeth, Rheoli a Sicrhau Gwybodaeth

Mae perchnogaeth, rheoli a sicrhau gwybodaeth yn hanfodol i ddatblygu ymddiriedaeth rhwng partneriaid ac i sicrhau y caiff yr wybodaeth a ddarperir i'r BGLI ei rheoli'n ddiogel a'i defnyddio'n briodol.

Gwneir hyn trwy ddefnyddio Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) sef Cytundeb a Phrotocol Rhannu Gwybodaeth.

Y Cytundeb – set o egwyddorion a safonau corfforaethol cyffredin a fydd yn sail i'r modd y bydd cyrff sy'n bartneriaid yn rhannu gwybodaeth. Trwy gytuno i'r Cytundeb hwn cofnodir ymroddiad pob corff sy'n bartner i fodloni safonau a gytunwyd ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol adnabyddadwy a defnyddio'r fframwaith. Disgwylir i'r holl bartneriaid gytuno i'r Cytundeb.

Protocol Rhannu Gwybodaeth (PRhG) – yn adnabod gofynion o ran y data gweithredol i'w rhannu at ddibenion penodol a chyfreithiol.

Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth yn nodi:

- Pwrpas penodol ar gyfer rhannu gwybodaeth;
- Grŵp/grwpiau defnyddwyr gwasanaeth yr effeithir arnynt;
- Pwerau deddfwriaethol perthnasol a'r prosesau sy'n gysylltiedig wrth gael caniatâd;
- Y data a gaiff eu rhannu;
- Y gweithdrefnau gweithredu gofynnol a'r broses adolygu;
- Sut y caiff ymarferwyr eu hysbysu am ofynion gweithredu penodol.

Yn y bôn, rhain yw'r cwestiynau "pwy, pam, ble, pryd, beth a sut" sydd yn ymwneud â rhannu gwybodaeth bersonol.

Gall partneriaid gytuno i un fersiwn yn unig o'r Cytundeb ar gyfer Cymru, ond gall nifer o Brocolau Rhannu Gwybodaeth fodoli.

Bydd angen asesu goblygiadau ac anghenion technegol unrhyw ddulliau newydd o gydweithio.

Mae Atodiad D y strategaeth hon yn cynnwys mwy o wybodaeth am ganllawiau a deddfwriaeth.

9. Mesur Llwyddiant

Bydd y BGLI yn cydweithio i fesur llwyddiant y strategaeth wybodaeth hon yn ôl y cynllun gweithredu presennol. Os caiff canlyniadau eu cyflenwi ar amser ac i'r safon cywir yna ystyrir bod y strategaeth wybodaeth yn gweithio.


Ar y cam hwn ni fydd y BGLI yn datblygu mesurau perfformiad ar gyfer y strategaeth hon ond bydd yn sicrhau y caiff cynnydd ei fonitro ar sail:

- Gweithio mewn partneriaeth
- Gwelliant parhaus
- Defnydd effeithiol o adnoddau
- Protocolau Rhannu Gwybodaeth
- Yr asesiad aeddfedrwydd rheoli gwybodaeth

10. Adolygu a diweddarau

Caiff y strategaeth hon ei hadolygu'n flynyddol a caiff y cynllun gweithredu ei adolygu bob chwarter.

Atodiad A: Y Model Hierarchiaeth Aeddfedrwydd Gwybodaeth Fusnes



(‘Business Intelligence Maturity Hierarchy: A New Perspective from Knowledge Management’
gan Roger Deng)

Mae'n bwysig y caiff asesiad ei gynnal i weld lle yr ydym ar hyn o bryd o ran ein systemau rheoli data a hefyd, ein bod yn ymroddedig i gydweithio'n barhaus i fonitro'r ffordd yr ydym yn gweithio â data, gwybodaeth, dealltwriaeth a doethineb.

Caiff hyn ei wneud trwy ddatblygu a gweithredu asesiad aeddfedrwydd rheoli gwybodaeth a gynllunir yn benodol ar gyfer cynlluniau integredig.

Caiff yr asesiad hwn ei ddefnyddio hefyd fel un ffordd o fesur llwyddiant y strategaeth.

Atodiad B: Cynllun Gweithredu

	Camau Gweithredu	Arweiniad	Amserlen
1.	Y BGLI yn penodi swyddog yn arweinydd y Strategaeth Wybodaeth.	BGLI	Chwefror 2014
2.	Sefydlu Gweithgor Rheoli Gwybodaeth y BGLI (cyfyngedig o ran amser – i gyfarfod unwaith y mis am 6 – 12 mis).	Arweinydd y Strategaeth Wybodaeth	Chwefror 2014
3.	Holl Bartneriaid y BGLI i gytuno i Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.	Holl Bartneriaid y BGLI	Mawrth 2014
4.	Cynnal asesiad aeddfedrwydd gwybodaeth neu asesiad tebyg a gytunwyd a chyflenwi'r prif gamau gweithredu a thrwy'r broses hon adnabod y prif feysydd lle dylai Protocolau Rhannu Gwybodaeth fod yn eu lle. (Gellir defnyddio'r ddau i fesur llwyddiant os cânt eu cynnal yn flynyddol).	Gweithgor Rheoli Gwybodaeth y BGLI	Gorffennaf 2014
5.	Mapio'r adnoddau a'r gallu sydd ar gael ar draws yr holl bartneriaid ac adnabod unrhyw anghenion h.y. hyfforddiant er mwyn symud data/gwybodaeth i ddealltwriaeth, Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth.	Gweithgor Rheoli Gwybodaeth y BGLI	Gorffennaf 2014
6.	Mapio'r prosesau a ddefnyddir gan y BGLI ar hyn o bryd i gasglu a rhannu gwybodaeth a datblygu model gwell.	Gweithgor Rheoli Gwybodaeth y BGLI	Gorffennaf 2014
7.	Datblygu polisi mesur perfformiad â safonau clir i sicrhau ansawdd mesurau a ddatblygwyd yn lleol ar draws yr holl bartneriaid (gweithredwyd Ebrill 2015).	Gweithgor Rheoli Gwybodaeth y BGLI	Gorffennaf 2014
8.	Bod Rheoli Gwybodaeth a Dealltwriaeth yn cael ei roi ar gofrestr risg BGLI a'i fonitro bob dwy flynedd gan y BGLI.	BGLI	Gorffennaf 2014
9.	Gwiriad Sicrhau Ansawdd Gwybodaeth		Gorffennaf 2014

Atodiad C: Rhestr gyflawn o Anghenion Gwybodaeth ac Amserlenni'r BGLI:

Gwybodaeth	Ffynhonnell	Amserlen	Casglwr yr Wybodaeth	Darparwr yr Wybodaeth
Asesiad o'r Anghenion ar y Cyd	Cenedlaethol a Lleol	I'w adolygu a'i ddiweddarau yn 2016*	CBS Conwy – Arweinydd Un Conwy Cyngor Sir Ddinbych – Arweinydd y Cynllun MAWR Bydd angen i'r holl bartneriaid ddarparu diweddariad.	Holl bartneriaid y BGLI wedi'u cysylltu â'r data lleol
Ymchwil Pellach	Lleol	Parhaus	Yn dibynnu ar yr ymchwil	Holl bartneriaid perthnasol y BGLI
Dangosyddion Poblogaeth	Cenedlaethol	I'w hadolygu a'u diweddarau yn flynyddol (os cyhoeddir hwy)	CBS Conwy – Arweinydd Un Conwy Cyngor Sir Ddinbych – Arweinydd y Cynllun MAWR	Gwahanol gyrrff cenedlaethol
Mesurau Perfformiad	Lleol	I'w hadolygu bob dwy flynedd	CBS Conwy – Arweinydd Un Conwy Cyngor Sir Ddinbych – Arweinydd y Cynllun MAWR	Holl bartneriaid perthnasol y BGLI
Camau gweithredu	Lleol	I'w hadolygu bob dwy flynedd	CBS Conwy – Arweinydd Un Conwy Cyngor Sir Ddinbych – Arweinydd y Cynllun MAWR	Holl bartneriaid perthnasol y BGLI
Ymgysylltu â'r Gymuned a Phrofiad Lefel Gwasanaeth	Lleol	Yn flynyddol	CBS Conwy – Arweinydd Un Conwy Cyngor Sir Ddinbych – Arweinydd y Cynllun MAWR	Holl bartneriaid perthnasol y BGLI
Data Lefel Gwasanaeth	Lleol	Parhaus	CBS Conwy – Arweinydd Un Conwy Cyngor Sir Ddinbych – Arweinydd y Cynllun MAWR	Holl bartneriaid perthnasol y BGLI
Straeon (Gwybodaeth ansoddol yn dangos pa wahaniaeth a wnaed)	Lleol	Parhaus	CBS Conwy – Arweinydd Un Conwy Cyngor Sir Ddinbych – Arweinydd y Cynllun MAWR	Holl bartneriaid perthnasol y BGLI
Data personol ar gyfer unrhyw brosiectau neu Welliannau i'r Gwasanaeth	Lleol	Parhaus	Arweinydd y Prosiect neu Arweinydd Gwella'r Gwasanaeth	Holl bartneriaid perthnasol y BGLI
Gwasanaethau a Gomisiynwyd	Lleol Rhanbarthol	Parhaus	CBS Conwy – Arweinydd Un Conwy Cyngor Sir Ddinbych – Arweinydd y Cynllun MAWR	Holl bartneriaid y BGLI

Atodiad D – Canllawiau a Deddfwriaeth

Wrth reoli'r wybodaeth a gedwir gennym, mae angen i ni fod yn ymwybodol o sawl gofyniad deddfwriaethol. Mae lluo o ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r meysydd rydym yn ymdrin â hwy, ond mae'r prif ofynion / canllawiau deddfwriaethol y dylem fod yn ymwybodol ohonynt wrth ystyried ein cyfrifoldebau o ran gwybodaeth fel a ganlyn:

- [Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990](#)
- [Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988](#)
- [Deddf Diogelu Data 1998](#)
- [Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004](#)
- [Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000](#)
- [Deddf Hawliau Dynol 1998](#)
- [Rheoliadau INSPIRE 2009](#)
- [Deddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003](#)
- [Deddf Llywodraeth Leol \(Mynediad at Wybodaeth\) 1985](#)
- [Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig \(Cyfarwyddeb UE\) 2003](#)
- [Deddfau Cofnodion Cyhoeddus 1958 ac 1967](#)
- [Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2005](#)

Mae'r prif ganllawiau ar gyfer cadw a defnyddio'r wybodaeth a gedwir gennym yn cynnwys:

- Canllawiau yn ymwneud â Chyhoeddiadau Swyddogol mewn Awdurdodau Lleol 2007
- [Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion 2009 \(Adran yr Arglwydd Ganghellor\)](#)
- Canllawiau Cadw yn ymwneud â Chofnodion Awdurdodau Lleol (Cymdeithas Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion)